

Myfyrdod

Bu llawer iawn o sôn ar y newyddion yr wythnos diwethaf am y sefyllfa drychinebus yn Afghanistan a'r polisïau a arweiniodd at hynny. Cyfeiriwyd at benderfyniad Joe Biden, Arlywydd America, i ymddihatru o ryfeloedd fyddai, yn ei farn ef, yn 'parhau am byth'. Dengys y sefyllfa'n eglur pa mor bellgyrhaeddol yw effeithiau gweledigaeth wleidyddol arbennig, a chyhuddwyd y Gorllewin o adael y wlad mewn llanast a'r boblogaeth mewn perygl.

Yn y chweched bennod ar hugain o Lyfr yr Actau y mae'r Apostol Paul y sôn am y weledigaeth Gristnogol a roddodd bwrpas a chyfeiriad i'w fywyd. Gwna hynny ar ôl cael ei ddwyn i'r ddalfa er ei ddiogelwch ei hun, a hynny'n dilyn y cynnwrf a barodd ei bregethu yn y Deml, pryd yr amlinellodd yr hyn a ddigwyddodd iddo ar y ffordd i Ddamascus flynyddoedd ynghynt.

Fe gawn hanes tröedigaeth Paul dair gwaith yn llyfr yr Actau. Luc, awdur y llyfr, sy'n dweud yr hanes ym mhennod 9, ond ym mhenodau 22 a 26 Paul ei hun sy'n adrodd y stori. Ag yntau o flaen ei well dywed wrth y brenin Agripa;

Actau 26:12-20

"Pan oeddwn yn teithio i Ddamascus ar y perwyl hwn gydag awdurdod a chennad y prif offeiriaid, gwelais ar y ffordd ganol dydd, O frenin, oleuni mwy llachar na'r haul yn llewyrchu o'r nef o'm hamgylch i a'r rhai oedd yn teithio gyda mi. Syrthiodd pob un ohonom ar y ddaear, a chlywais lais yn dweud wrthyf yn iaith yr Iddewon, 'Saul, Saul, pam yr wyt yn fy erlid i? Y mae'n galed iti wingo yn erbyn y symbylau.' Dywedais innau, 'Pwy wyt ti, Arglwydd?' A dywedodd yr Arglwydd, 'Iesu wyf fi, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid. Ond cod a saf ar dy draed; oherwydd i hyn yr wyf wedi ymddangos i ti, sef i'th benodi di yn was imi, ac yn dyst o'r hyn yr wyt wedi ei weld, ac a weli eto, ohonof fi. Gwardaf di oddi wrth y bobl hyn ac oddi wrth y

Cenhedloedd yr wyf yn dy anfon atynt, i agor eu llygaid, a'u troi o dywyllwch i oleuni, o awdurdod Satan at Dduw, er mwyn iddynt gael maddeuant pechodau a chyfran ymhlith y rhai a sancteiddiwyd trwy ffydd ynof fi.'

"O achos hyn, y Brenin Agripa, ni bŵm anufudd i'r weledigaeth nefol, ond bŵm yn cyhoeddi i drigolion Damascus yn gyntaf, ac yn Jerwsalem, a thrwy holl wlad Jwdea, ac i'r Cenhedloedd, eu bod i edifarhau a throi at Dduw, a gweithredu yn deilwng o'u hedifeirwch."

Dywed Paul i'r hyn a ddigwyddodd iddo ar y ffordd i Ddamascus newid ei fywyd yn llwyr. Trodd yr erlidiwr yn genhadwr a bu'n ddiatal ei ymroddiad i'r gwaith o sôn am Iesu Grist a galw ar bawb i'w ddilyn. 'Ni fŵm anufudd i'r weledigaeth nefol' meddai wrth Agripa, ac y mae'r weledigaeth honno wedi bod yn gymhelliad ac yn ganllaw i genedlaethau o Gristnogion ar hyd y canrifoedd. Y mae'n weledigaeth sydd iddi led a dyfnder, y mae'n cwmpasu bywyd i gyd ac yn gorffwys ar yr argyhoeddiad o gariad Duw, waned yn amlwg yn Iesu Grist. Rhaid wrth fywyd cyfan ac ymroddiad llwyr i'w gwireddu.

Bu D.S. Owen yn weinidog capel Jewin yn Llundain o 1915 i 1959. Dinistriwyd y capel yn ystod yr Ail Ryfel Byd ond adeiladwyd capel newydd ar y safle yn Fann Street, nepell o safle canolfan y Barbican heddiw. Bu farw D S Owen ychydig cyn agor y capel newydd ac ym mis Mawrth 1962 dadorchuddiwyd ffenestr goffa iddo ac arni'r geiriau '*ni fŵm anufudd i'r weledigaeth nefol*'. Yng ngwasanaeth agoriadol y capel newydd gwnaeth aelodau Jewin adduned ddwys oedd yn adlewyrchu eu gweledigaeth Gristnogol:

'Addunedwn hefyd ein cysegru ein hunain i'w wasanaeth Ef. Gweddïwn am i bawb a fyddo'n addoli rhwng y muriau cysegredig hyn dderbyn goleuni a nerth ar gyfer holl amgylchiadau bywyd. Amlyged yr Arglwydd ei hun, megis yn y

dyddiau gynt, fel y gwasanaethom Ef i ryngu ei fodd, er gogoniant i'w Enw tragwyddol, ac er lledaeniad ei Deyrnas.'

Emyn

'O am fywyd o Sancteiddio' (Prysgol)

<https://youtu.be/2kfsTJX7MV8>

Hogia'r Ddwylan

Gweddi

Diolchwn, Arglwydd, am bawb a fu môr ffyddlon i weledigaeth fawr y Ffydd. Gwna ni yr un mor ddyfal â'r rhai a aeth o'n blaen, yn cadw'r fflam ynghyn. Dyro inni'r un argyhoeddiad tanbaid, a'r un ddawn nefol, a'r un neges felys fydd yn troi eraill eto atat ti, ac yn peri helaethu dy Deyrnas yn ein plith.

Diolchwn am Iesu Grist a ddatguddiodd i ni mai 'Duw, cariad yw.' Diolchwn am ei fywyd glân a'i weinidogaeth dirion, am ei wyrthiau a'i ddamhegion, ei eiriau o gysur a'i gerydd a'i farn. Dysg i ni bwyso mwy ar ei addewidion a rhoi ein ffydd yn ei neges, a'n hysgwydd dan ei groes.

Diolchwn am farw aberthol Crist a'i atgyfodiad o'r bedd, a'r addewid o'i bresenoldeb gyda ni drwy'r Ysbryd Glân. Boed i'r Ysbryd hwnnw a gyffrôdd y disgyblion gynt ein bywiocau ninnau, a'n gwneud yn 'fwy na choncwerwyr, trwy'r hwn a'n carodd ni'.

Cyflwynwn i ti ein hanwyliaid a'n cyfeillion, a phawb sydd mewn angen. Cofiwn yn arbennig am amgylchiadau trist ac argyfyngus pobl Afghanistan, a gweddiwn y gwelir yno cyn hir gymod a chyfiawnder a heddwch.

Bydd gyda phawb heddiw sydd angen dy gwmni, a thywallt dy fendith arnom, gan faddau inni bob pechod a bai. A hynny nid am fod ynom ni haeddiant, ond am y gofynnwn bopeth yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist. Amen.

Y Fendith

I'n Duw ni y bo'r mawl
a'r gogoniant a'r doethineb a'r diolch
a'r anrhydedd a'r gallu a'r nerth
byth bythoedd! **Amen.**